**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyflawni Corfforaethol Addysg a Sgiliau

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mercher, 23 Tachwedd 2022 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M Durke (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J P Curtice | F M Gordon | B Hopkins |
| L R Jones | S Joy | S Pritchard |
| T M White | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Stephen Holland | Uwch-Gyfreithiwr |
| Sarah Hughes | Rheolwr Tîm Strategaeth Addysg |
| Rhodri Jones | Pennaeth y Gwasanaeth Cyflawniad a Phartneriaeth |
| Helen Morgan-Rees | Cyfarwyddwr addysg |
| Melissa Perry | Cyfreithiwr Dan Hyfforddiant |
| David Thomas | Prif Ymgynghorydd Gwella Ysgolion |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd R V Smith - Aelod y Cabinet Dros Addysg a Dysgu

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Dim

---

**23 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**24 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyflawni Corfforedig Addysg a Sgiliau a gynhaliwyd ar 26 Hydref 2022 fel cofnod cywir.

**25 Cryfhau Arweinwyr Ysgol.**

Rhoddodd David Thomas gyflwyniad ar lafar ynghylch y cryfderau presennol mewn arweinyddiaeth ysgolion, gan drafod adolygiadau gan gymheiriaid, cefnogaeth ac

ymsefydlu i benaethiaid newydd a chefnogaeth i athrawon newydd trwy Partneriaeth yn benodol.

O ran adolygiadau gan gymheiriaid, cafodd canllawiau eu datblygu i ddechrau sy'n dilyn fframwaith arolygu blaenorol Estyn yn Abertawe.

Mae'r cyd-destun i'r adolygiadau cyfoedion presennol yn cael ei ddatblygu ar y cyd â chynllun 'Ysgolion fel Sefydliadau Dysgu' Llywodraeth Cymru.

Yna, rhannodd fideo byr o wefan Hwb Llywodraeth Cymru a oedd yn amlinellu trosolwg o'r gwaith sy'n cael ei wneud gydag ysgolion i'w cefnogi i ymgysylltu â'r cynllun ysgolion fel sefydliadau dysgu.
Mae thema'r fideo'n hyrwyddo'r syniad bod disgyblion, staff, rhieni, cymunedau lleol a busnesau i gyd yn rhan o hyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu arolwg ysgolion fel sefydliadau dysgu sy'n amlinellu 7 maes lle byddai pob ymarferydd mewn lleoliad ysgol yn cynnal arolwg ac mae'n gofyn nifer o gwestiynau a fyddai'n canfod, er enghraifft, pa mor dda y mae arweinwyr ysgolion yn sicrhau bod ymarferwyr yn ymgysylltu â lleoliadau eraill y tu allan i'r ysgol.

Yn ogystal ag ymdrin ag adolygiadau gan gymheiriaid, mae’r arolwg hefyd yn cwmpasu ystod eang o weithgareddau ymgysylltu, gan gynnwys hunan-werthuso a rhannu gweledigaeth ysgol ac mae'n cynnwys y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth ac yn cyd-fynd yn dda â nhw.

Amlinellodd fod cysylltiad clir iawn rhwng disgwyliadau athrawon newydd, athrawon sy'n datblygu ac uwch-arweinwyr a phenaethiaid gyda dulliau hunan-werthuso fel y cynllun ysgolion fel sefydliadau dysgu, a gall gwerthuso a dadansoddi'r arolwg gynhyrchu diagram 'gwe' a fydd yn amlinellu canlyniadau'r saith maes ac yn dangos y cryfderau a'r gwendidau a nodwyd o fewn yr ysgol.

Cafodd enghraifft o ganlyniad arolwg 'gwe' o'r fath ei hamlinellu a'i dangos i'r pwyllgor.

Byddai arweinwyr ysgolion sy'n dilyn canlyniadau'r arolwg wedyn yn troi at rywbeth o'r enw'r adnodd cenedlaethol ar gyfer gwerthuso a gwella, sy'n eu helpu i ofyn cwestiynau iddyn nhw eu hunain sy'n ymwneud â'r meysydd a nodwyd yn yr arolwg.

Byddai’r tîm gwella ysgolion yn cael canlyniadau'r arolwg ar eu hymweliadau ac yn cysylltu â'r ysgol i gynorthwyo a datblygu syniadau i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodwyd.

Yna, amlinellodd y cymorth ynghylch y gefnogaeth sefydlu ar gyfer swyddi uwch newydd a roddwyd i gyrff llywodraethu, sy'n cynnwys arweiniad adrannol gan aelod o dîm gwella'r ysgol ar bob cam ar gyfer dirprwy benaethiaid a phenaethiaid, ac yn y rhan fwyaf o achosion ar gyfer penaethiaid cynorthwyol ac mewn rhai achosion ar gyfer uwch-arweinwyr.

Yna, caiff mentor ei neilltuo i'r unigolyn a benodwyd i rôl y pennaeth, ac mae gennym gasgliad o benaethiaid profiadol sydd wedi cynnig eu gwasanaethau fel mentoriaid. Rydym yn defnyddio'r term 'mentor anffurfiol' gan nad yw'n rhan o'r cynllun cenedlaethol. Gall nifer o'r ymarferwyr hyn y gallwn alw arnynt i ryngweithio â'r pennaeth newydd weithio ag ef yn rheolaidd, fel modd o ddarparu cymorth llesiant, ond hefyd i roi rhywfaint o arweiniad a chymorth ymarferol ar sut i redeg yr ysgol.

Yr ail gam yn y broses yw derbyn mentor trwy'r rhaglen penaethiaid newydd a phenaethiaid dros dro yn Abertawe, sydd ychydig yn ar wahân, felly byddant yn dod yn rhan o rwydwaith ehangach yn Abertawe a chynhelir rhai sesiynau mwy ffurfiol gan benaethiaid profiadol yn Abertawe. Byddant hefyd yn rhan o grŵp WhatsApp ac amryw o dimau/grwpiau eraill er mwyn sicrhau eu bod yn gallu galw am gefnogaeth pan fydd ei hangen.

Maent hefyd wedi cofrestru yn y rhaglen penaethiaid newydd a phenaethiaid dros dro o safbwynt cenedlaethol a hwylusir gan Partneriaeth, ac sy'n derbyn gofal gan Rob Phillips, sydd wedi cael ei secondio o un o'n hysgolion uwchradd yn Abertawe ac sy'n ymwneud â'r rhaglen genedlaethol honno fel swyddogaeth statudol. Yn ogystal â hynny, pan fyddwn yn cymryd cam yn ôl ac yn edrych ar y rhaglen penaethiaid newydd a phenaethiaid dros dro a weithredir gennym yn Abertawe, rydym yn dilyn y llawlyfr sydd newydd ei lunio, sy'n cyfeirio i ofynion dysgu proffesiynol ar gyfer penaethiaid yn Abertawe'n benodol megis cyllid, rheoli safloedd, AD, etc.

Yn ogystal â'r uchod mae cyfres o saith cwrs gorfodol y mae'n ofynnol i'r penaethiaid hynny ymgymryd â nhw o fewn eu dwy flynedd gyntaf.

Manylodd, o ran gwaith ehangach pennaeth, y byddai'r mentor anffurfiol yn rhoi cefnogaeth ar gyfer pethau fel prosesau effeithiol ar gyfer hunan-werthuso, eu hymgysylltiad yn eu gwaith ysgolion fel sefydliadau addysg a amlinellir uchod a'r gwaith o gefnogi cyfeiriad strategol a chyflwyniad yr ysgol, ond yn dilyn yr ymweliad gwella ysgolion sy'n digwydd o leiaf deirgwaith y flwyddyn, byddai'r tîm wedyn yn ymgysylltu â'r mentor yn anffurfiol i sgwrsio am sut mae'r unigolyn hwnnw'n dod yn ei flaen. Gall y tîm alw'r mentor i ddod i gyfarfodydd yn ystod ein hymweliad. Mae'r tîm hefyd yn ymgysylltu â'r corff llywodraethu oherwydd eu bod yn rhan o'r ymweliadau hynny hefyd.

Amlinellodd, lle nodir gofynion am gymorth pellach, y byddai'r ymgynghorydd gwella ysgolion yn trafod hyn gyda'r unigolyn ac yna'n cyfeirio i arferion effeithiol gan ddefnyddio'r gronfa ddata y mae'r tîm wedi'i goladu. Amlinellodd esiampl lle digwyddodd hyn a darparwyd cefnogaeth athro profiadol mewn lleoliad ysgol ffydd.

Amlinellodd y sail a’r cefndir y mae'r mentoriaid yn cael eu hadnabod neu'n hunan-adnabod arnynt, a gwneir hyn gyda chefnogaeth y corff llywodraethu perthnasol. Soniodd wedyn am y gwaith a wneir i gefnogi athrawon sy’n newydd i'r swydd yn Abertawe ac mae nifer o rwydweithiau'n cael eu cynnal trwy Teams gan Partneriaeth.

Cyfeiriodd at y casgliad o gefnogaeth a gynigir ac amlinellodd fod pob awdurdod lleol yn cael dyrannu'r arian i gefnogi athrawon sydd newydd gymhwyso yn eu hawdurdodau lleol drwy'r rhanbarth. Yn Abertawe, mae un aelod o'r tîm yn goruchwylio gwaith y mentoriaid mewnol a'r mentoriaid a'r dilyswyr allanol ar draws yr awdurdod lleol. Fel un o'r awdurdodau mwy, mae gan Abertawe gronfa fawr o athrawon sydd newydd gymhwyso.

Manylodd ar y cyfle drwy gyllid yn ystod y pandemig i osod athrawon newydd gymhwyso yn ysgolion Abertawe i gyflawni eu hymarfer cynnar. Defnyddiwyd hyn yn effeithiol yn ysgolion Abertawe a chaniataodd i uwch-arweinwyr ymgymryd â gweithgareddau gwella ysgolion ymhellach.

Mae ysgolion Abertawe'n gwneud defnydd da o gynnig dysgu proffesiynol Partneriaeth a rhoddodd gipolwg i'r pwyllgor o’r ddarpariaeth ar-lein sydd ar gael ar gyfer athrawon sydd newydd gymhwyso ar draws ysgolion Abertawe a'r rhwydweithiau amrywiol, a'r cysylltiadau a grwpiau cymorth sydd ar gael yn allanol ac yn fewnol.

Gofynnodd aelodau'r pwyllgor gwestiynau niferus a gwnaethant sylwadau ynglŷn â'r wybodaeth a amlygwyd yn y cyflwyniad ac ymatebodd y Swyddogion ac Aelod y Cabinet yn briodol iddynt. Byddai rhywfaint o'r data a'r wybodaeth y gofynnwyd amdano yn ystod y cyfarfod yn cael ei archwilio a gellid ei ddarparu maes o law os yw'n berthnasol i waith y pwyllgorau.

Cyfeiriodd Helen Morgan-Rees a Rhodri Jones at ddatblygiad parhaus y llawlyfr i benaethiaid newydd a phenaethiaid dros dro yn Abertawe sydd ar ffurf dogfen ddrafft ar hyn o bryd. Diolchwyd i'r pwyllgor am eu mewnbwn, eu cwestiynau a'u sylwadau dros y cyfarfodydd diwethaf, y byddant yn cael eu cynnwys yn y ddogfen a'u rhannu i gael sylwadau i ddechrau gyda grŵp o benaethiaid profiadol a phenaethiaid sydd newydd gymhwyso. Yna gellir ail-gyflwyno'r ddogfen i'r pwyllgor hwn i'w chymeradwyo maes o law cyn iddi gael ei chyflwyno i'r Cabinet.

Byddai'r fersiwn derfynol ar gael ar-lein i staff.

## 26 Cynllun Gwaith

Siaradodd y Cadeirydd ymhellach ynghylch y cynllun gwaith drafft a gylchredwyd, gan amlinellu y byddai'r ddau gyfarfod nesaf yn canolbwyntio ar Bresenoldeb a Chynhwysiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.57 pm

**Cadeirydd**